# Y Sbarc

Rhagfyr 2025 – Cyfrol II


## Y diweddariadau diweddaraf gan Great British Energy- Nuclear

### Dewis Wylfa fel y safle ar gyfer SMR cyntaf Ewrop

Ddydd Iau 13 Tachwedd, cyhoeddwyd Wylfa ar Ynys Môn fel y safle ar gyfer adweithyddion modiwlaidd bach (SMR) cyntaf y DU – carreg filltir bwysig at ddarparu ynni glân, diogel a lleol.

Bydd y prosiect SMR cyntaf hwn yn ychwanegu hyd at 1.5GW o bŵer carbon isel at y grid, gan greu hyd at 3,000 o swyddi yn ystod cyfnod prysuraf y gwaith adeiladu a miloedd yn fwy ar draws y gadwyn gyflenwi.



*Mae tîm GBE-N yn rhoi gwybodaeth i weinidogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru am gynlluniau Wylfa*

Wrth groesawu'r newyddion, dywedodd Keir Starmer, y Prif Weinidog:

“Roedd Prydain ar un adeg ar flaen y gad ym maes pŵer niwclear, ond mae blynyddoedd o esgeulustod ac inertia wedi golygu bod llefydd fel Ynys Môn wedi cael eu siomi a'u gadael ar ôl.

“Heddiw, mae hynny'n newid. Rydyn ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu – lleihau biwrocratiaeth, newid cyfreithiau cynllunio a chefnogi twf – er mwyn darparu SMR cyntaf y wlad yng ngogledd Cymru.

“Nid gwrthdroi dirywiad yn unig y mae'r llywodraeth hon, mae'n darparu miloedd o swyddi sy'n addas ar gyfer y dyfodol, yn sbarduno gwerth biliynau o fuddsoddiad, ac yn darparu biliau ynni rhatach yn y tymor hir.

“Dyna enghraifft o adnewyddiad cenedlaethol ar waith: drwy rym pŵer doniau’r DU, drwy rym pŵer niwclear, a drwy rym pŵer llywodraeth sy’n cyflawni ar gyfer pobl sy’n gweithio.”

*Yn parhau dros y dudalen*

## Dewis Wylfa fel y safle ar gyfer SMR cyntaf Ewrop (parhad)

Ychwanegodd Simon Bowen, ein Cadeirydd:

“Dyma foment hanesyddol i’r DU a cham pwysig arall at wireddu potensial y wlad i arwain y ffordd ym maes ynni niwclear.

“Bydd yr SMR cyntaf hyn yn Wylfa yn gosod y sylfeini ar gyfer dull seiliedig-ar-fflyd o ddatblygu niwclear, gan gryfhau annibyniaeth ynni’r DU a denu buddsoddiad hirdymor i’r economi leol.

“Mae gan Wylfa hanes balch o ragoriaeth niwclear, ac rydyn ni’n edrych ymlaen at adeiladu ar y sylfaen honno i ddarparu swyddi, hyfforddiant ac ynni carbon isel am genedlaethau.”

Ar yr un diwrnod, gofynnodd y Llywodraeth i GBE-N nodi mwy o safleoedd yn y DU, gan gynnwys y rheini yn yr Alban, a allai gynnal datblygiadau ar raddfa fawr yn y dyfodol. Byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau yn hydref 2026, a fydd yn ei dro yn helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol yn yr Adolygiad nesaf o Wariant.

## Penodi Simon Bowen yn Gadeirydd GBE-N

Ar yr un diwrnod â’n cyhoeddiad am y safle, cafodd Simon Bowen ei benodi’n Gadeirydd Great British Energy – Nuclear, ar ôl bod yn Gadeirydd dros dro ers 2023.

O dan arweinyddiaeth Simon, cyflwynodd GBE-N broses ddethol gadarn ar gyfer y dechnoleg, gan enwi Rolls-Royce SMR fel ein partner technoleg o ddewis.

Bydd Simon nawr yn goruchwylio'r gwaith o greu cwmni datblygu newydd i gyflawni prosiect SMR cyntaf y DU a pharhau i siapio rôl strategol GBE-N o ran galluogi rhaglen niwclear llywodraeth y DU.



*Simon Bowen*

## Cyhoeddwyd Simon Roddy fel Prif Weithredwr newydd



*Simon Roddy*

Yr wythnos diwethaf, roeddem yn falch iawn o gyhoeddi bod Simon Roddy wedi cael ei benodi'n Brif Weithredwr newydd GBE-N.

Mae gan Simon dros 30 mlynedd a mwy o brofiad gyda Shell yn y sector ynni, yn rhyngwladol ac yn y DU. Mae ei gefndir yn cynnwys profiad helaeth o reoli seilwaith ynni, a chyflawni prosiectau ynni cymhleth. Yn fwyaf diweddar, fel Uwch Is-lywydd Shell UK, mae wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o drawsnewid ynni Môr y Gogledd.

Bydd hanes llwyddiannus Simon o reoli buddsoddiadau ynni ar raddfa fawr yn hollbwysig wrth i GBE-N fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu prosiectau a chyflawni uchelgais y Llywodraeth i gyflwyno un o fflydoedd SMR cyntaf Ewrop – gan gefnogi twf economaidd, creu swyddi medrus, a phweru miliynau o gartrefi.

Bydd Simon yn ymgymryd â'i swydd fel Prif Weithredwr yn swyddogol ar 2 Mawrth 2026.

Dywedodd yr Arglwydd Vallance, y Gweinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi, Ymchwil a Niwclear:

“Mae gan Simon gyfoeth o arbenigedd a hanes llwyddiannus a fydd yn helpu i ddarparu SMR cyntaf y DU yn Wylfa yng ngogledd Cymru.

“Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda Simon a thîm arwain Great British Energy – Nuclear wrth i ni ddechrau oes aur newydd ym maes niwclear, a fydd yn creu miloedd o swyddi ac yn rhoi hwb i ddiogelwch ynni'r DU.”

## Cadeirydd GBE-N yn rhoi'r brif araith yng nghynhadledd flynyddol y diwydiant niwclear

Ddydd Iau 4 Rhagfyr, cyflwynodd Simon Bowen ei brif araith yn ystod cynhadledd Nuclear 2025 (Cymdeithas y Diwydiant Niwclear), gan roi trosolwg o ba mor bell mae GBE-N wedi dod mewn cyfnod mor fyr, yn ogystal ag edrych i'r dyfodol, a'n mandad ychwanegol o asesu potensial safleoedd niwclear yn y DU yn y dyfodol.




*Cadeirydd, Simon Bowen yn cyflwyno yn Nuclear 2025*

## Wylfa: Safle sydd â hanes balch o gynhyrchu pŵer niwclear diogel a dibynadwy

Cafodd y newyddion bod Wylfa wedi cael ei dewis fel y safle ar gyfer ein SMR cyntaf groeso cynnes ar draws yr Ynys a rhanbarth ehangach gogledd Cymru, sydd wedi elwa'n fawr dros y blynyddoedd o gynnal Gorsaf Bŵer wreiddiol Wylfa.

O ddechrau'r gwaith o adeiladu gorsaf niwclear Magnox yn 1963 (sef gorsaf sydd â dau adweithydd), tan ddiwedd y cyfnod cynhyrchu yn 2015, roedd gan Wylfa hanes hir a balch o gynhyrchu pŵer niwclear diogel a glân. Roedd gan bob adweithydd gapasiti o 490 MWe, sy'n golygu mai Wylfa yw'r orsaf Magnox fwyaf i gael ei hadeiladu, ac am gyfnod dyma oedd yr orsaf bŵer niwclear fwyaf yn y byd. Wedi'i lleoli tua milltir o dref Cemaes gerllaw, Wylfa oedd yr orsaf Magnox olaf i gael ei hadeiladu a'r olaf i ddechrau datgomisiynu.

Pan oedd yr orsaf ar ei hanterth, roedd Wylfa yn cyflogi mwy na 1,000 o bobl, a chynhyrchodd 232 TWh o drydan dros ei 44 mlynedd o weithredu. Mewn termau real, byddai hyn yn ddigon i bweru bron pob un o'r 1.3 miliwn o gartrefi yng Nghymru ers 1971, gan osgoi dros 100 miliwn tunnell o allyriadau carbon deuocsid i'r atmosffer.

Wrth i ni yn GBE-N baratoi i adeiladu SMR y genhedlaeth nesaf ar y safle adeiladu newydd drws nesaf, bydd ein cydweithwyr yn Nuclear Restoration Services yn parhau i weithio'n ddiwyd i ddatgomisiynu Gorsaf Bŵer wreiddiol Wylfa yn ddiogel, a oedd yn golygu cymaint i genedlaethau ar draws yr ynys.



*Gorsaf bŵer Wylfa sy'n cael ei datgomisiynu a'r safle ar gyfer adweithyddion modiwlaidd bach cyntaf y DU*

# Y llwybr tuag at orsaf niwclear newydd yn Wylfa

Bydd y cyhoeddiad y bydd gorsaf niwclear newydd yn dod i Ynys Môn yn cychwyn cyfnod o ddatblygu ar gyfer prosiect gorsaf bŵer SMR cyntaf y DU.

Caiff y cyfnod hwn ei nodweddu gan waith cynllunio ar gyfer gwahanol gamau rheoleiddio a'r prosesau i wneud cais amdanynt. Bydd rhaid i ni gyflawni'r camau hyn cyn y gall y gwaith adeiladu ddechrau.

Un o'r camau mwyaf o blith y rhain fydd sicrhau'r caniatâd cynllunio gan y Llywodraeth (yn unol â chyngor yr Arolygiaeth Gynllunio) drwy orchymyn cydsyniad datblygu. Bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo am sawl blwyddyn, gan gynnwys gwaith dylunio manwl, asesiad o'r effaith amgylcheddol, ac ymgynghoriad cyhoeddus. Ar hyd y ffordd, mae'n debygol y bydd angen gwneud ceisiadau cynllunio llai i'r awdurdod lleol, Cyngor Sir Ynys Môn.

Er mwyn sicrhau diogelwch y prosiect drwy'r broses datblygu, adeiladu a gweithredu, gwneir cais i'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear am drwydded safle niwclear. Yn y cyfamser, er mwyn diogelu'r amgylchedd, bydd angen gwneud cais am nifer o drwyddedau amgylcheddol drwy Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y rheoleiddiwr amgylcheddol datganoledig.

Wrth i'r caniatadau amrywiol gael eu gwneud a'u rhoi, mae GBE-N wedi ymrwymo i ymgysylltu a chyfathrebu'n glir â'r cymunedau lleol o amgylch y prosiect er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael cyfleoedd i ddeall a, lle bo'n bosibl, i gyfrannu at ein cynigion.



*Mae GBE-N a rhanddeiliaid lleol yn ymgynnull ar y safle i nodi'r cyhoeddiad mai Wylfa fydd safle adweithyddion modiwlaidd bach cyntaf y DU. O'r chwith i'r dde Cyng. Jackie Lewis, arweinydd y cyngor Cyng. Gary Pritchard, Cadeirydd GBE-N Simon Bowen, Cyng. Kenneth Hughes, AS Llinos Medi, Cyng. Derek Owen, Cyfarwyddwr Prosiect GBE-N Kenny Douglas, Prif Swyddog Gweithredol y Cyngor Dylan Williams, Cyfarwyddwr Safle NRS Stuart Law, Cyng. Aled Morris Jones.*

## GBE-N yn cynnal digwyddiad ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi ym Manceinion

Ym mis Hydref, fe wnaethom gynnal digwyddiad ymgysylltu â'r farchnad ffurfiol ym Manceinion ar gyfer caffael ein Partneriaid Cyflenwi.

Dan arweiniad Helen Perthen, ein Prif Swyddog Masnachol, roedd y diwrnod yn canolbwyntio ar allu a chydweithio – themâu allweddol wrth gyflwyno rhaglen SMR y DU, cefnogi swyddi a sgiliau ym Mhrydain, a chynyddu twf economaidd.

Roeddem yn falch o gael Simon Bowen, ein Cadeirydd, a Kenny Douglas, Cyfarwyddwr Prosiect Gweithredol SMR, yn cyfrannu at y trafodaethau, gan archwilio sut gall GBE-N ddatgloi cyfleoedd a sicrhau bod y DU yn barod i gyflawni'n gyflym.

Hoffem ddiolch yn fawr i bawb a ymunodd â ni ac a rannodd wybodaeth werthfawr. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n adeiladu momentwm tuag at ddyfodol ynni glanach a mwy diogel i'r DU.




*Mae'r Prif Swyddog Masnachol Helen Perthen yn cyflwyno tîm GBE-N yn y digwyddiad ymgysylltu â marchnad partneriaid cyflenwi*

## Thank you for reading

I gael y newyddion a'r digwyddiadau diweddaraf gan GBE-N, cysylltwch â'n Pennaeth Cyfathrebu, Ieuan Williams, yn: ieuan.williams@greatbritishnuclear.uk.

Neu dilynwch ni ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol:

- X: GBNgovuk
- LinkedIn: great-british-energy-nuclear

## Carfan gyntaf y rhaglen Gyrfaoedd Cynnar yn dechrau yn GBE-N

Ym mis Hydref, roeddem yn falch iawn o groesawu carfan gyntaf ein rhaglen Gyrfaoedd Cynnar i GBE-N.

Dechreuodd ein cydweithwyr newydd, ynghyd â Neil Cooper, ein Prif Swyddog Ariannol, ar eu taith gyda sesiwn gynefino wedi'i theilwra i'w paratoi ar gyfer llwyddiant.

Gan roi sylw i feithrin cysylltiadau, archwilio ein diwylliant, a pharatoi ar gyfer eu cylchdroeon cyntaf ar draws y sector niwclear, dyma ddechrau pennod gyffrous iddyn nhw ac i ni.

Diolch yn fawr iawn i'n tîm Datblygu Talent, yn enwedig Vicki Dingwall, ein Harweinydd Datblygu Talent, am y gwaith caled a wnaed i greu a darparu profiad gynefino mor effeithiol.

Rydyn ni hefyd yn falch o weithio ochr yn ochr â sefydliadau fel Energus, Cogent Skills, a Rhwydwaith Cenhedlaeth Ifanc y Sefydliad Niwclear i gyflwyno ein Rhaglen Gyrfaoedd Cynnar.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at gefnogi ein graddedigion newydd, ein prentisiaid a'n cydweithwyr carlam wrth iddyn nhw ddatblygu eu gyrfaoedd – mae eu dyfodol ym maes niwclear yn dechrau yma!

Great British ENERGY | NUCLEAR

**Great British Energy – Nuclear**
**Department For Energy Security & Net Zero**
3-8 Whitehall Place
SW1A 2EG London, United Kingdom
enquiries@greatbritishnuclear.uk